

SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD

Uwch Arweinydd Carfan (Weldiwr)

Cyfeirnod y Swydd: 11965

Dyddiad y Disgrifiad Swydd: 08/09/2026

Fersiwn: F1

Gradd	7
Lleoliad	Depo Abercynon
Cyfadran	Gwasanaethau'r Amgylchedd
Uwchadran	Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Adran	Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Carfan/Is-garfan	Priffyrdd
Yn atebol i	Peiriannydd Goruchwylio Priffyrdd
Swyddi sy'n atebol i'r swydd hon	Dd/B
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	Nac oes

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Cyngor Rhondda Cynon Taf yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Os ydych chi'n gweithio i ni, mae eich gwaith yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau.
Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.

Rydyn ni'n darparu rhaglenni ymsefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

Llesiant a Chydbwysedd Gwaith-Bywyd
Yn ein Strategaeth Llesiant y Gweithlu gynhwysfawr, sy'n cydnabod y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, Cerdyn 'Vivup' i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau a chynllun **Beicio i'r Gwaith**.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n gyfle i chi gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae ein **cynllun pensiwn** yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae modd i chi fanteisio ar gyfleoedd pellach i roi hwb i'ch lles ariannol drwy ymuno â'n gweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael, gan ddechrau ar 26 diwrnod (pro rata) yn cynyddu i 31 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata).
Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' (rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau (sydd yn agored i staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol).

Bwriwch olwg ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Diben y swydd:

Cyfrannu at gyflawni amcanion a thargedau cyflawniad sy wedi'u nodi yng nghynllun busnes Gwasanaethau'r Priffyrdd sy'n rhan o'r uned Gofal y Strydoedd.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

1 Gweithio mewn modd proffesiynol a phortreadu delwedd gadarnhaol o'r Cyngor yn y gweithle.

2 Ymgymryd â dyletswyddau mewn perthynas â Chynnal a Chadw Priffyrdd ac Adeiladu megis ffensio, codi pyst/arwyddion, gosod dodrefn stryd, weldio a chynhyrchu cydrannau metel.

3 Sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau i safon uchel, o fewn y goddefiannau gofynnol ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnyn nhw.

4 Gosod esiampl i aelodau'r garfan a bod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch ar eu rhan gyda sylw arbennig i faterion sy'n ymwneud â gweithrediadau/offer weldio arbenigol.

5 Cyfarwyddo a dyrannu tasgau i aelodau'r garfan yn ddyddiol.

6 Gweithredu peiriannau ac offer megis llifiau palmant, torwyr nwy, weldwyr cludadwy, greindars ongl, offer torri cyflym, a driliau.

7 Gosod a thynnu offer rheoli traffig gan gynnwys goleuadau traffig dros dro, lle bo angen.

8 Cymryd rhan yn y system wrth gefn argyfwng y tu allan i oriau gwaith, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf a gweithrediadau llifogydd.

9 Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth.

10 Bod yn hyblyg i weithio mewn carfanau eraill yn ôl yr angen.

11 Amcangyfrif meintiau deunyddiau, nodi'r math o ddeunyddiau sydd eu hangen a nodi dulliau gwaith er mwyn ymgymryd â'r holl ddyletswyddau cynhyrchu.

Ymgymryd â dyletswyddau sy'n gymesur â'r radd yn unol â phwrpas a chyfrifoldebau'r swydd.

Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y Cyngor a chyflawni unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ran wrth fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd a chyflawni ei dargedau o ran Lleihau Carbon ar draws y gwasanaethau y mae'n eu darparu a hefyd yn y nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu prynu neu'n eu comisiynu gan sefydliadau eraill.
Mae gan bob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn drwy Reolwr Llinell y person, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YN WYNEBU ADOLYGIAD O DRO I DRO MEWN YMGYNGHORIAD Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL Y BYDD Y DISGRIFIADAU SWYDDI YN NEWID YN SGIL HYNNY

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau** a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gyda'r person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut y byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd hon.

Gwybodaeth/Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Gwybodaeth dda am weithrediadau cynnal a chadw priffyrdd / adeiladu priffyrdd.	Cymhwyster perthnasol neu hyfforddiant achrededig mewn Cynnal a Chadw Priffyrdd.
Sgiliau Cymraeg Lefel 1 – Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma. Edrychwch ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.	Sgiliau Cymraeg Lefel 2 i Lefel 5. I gael gwybodaeth am y lefelau, mynnwch olwg ar ein canllawiau Lefelau Sgiliau Cymraeg, sydd i'w gweld yn adran y Gwasanaethau Cymraeg ar wefan Cyngor Rhondda Cynon Taf.
Meddu ar gymhwyster weldio, ffabrigo neu beirianneg cydnabyddedig h.y. Lefel 3 mewn peirianneg ffabrigo a weldio neu gymhwyster cyfatebol.	

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Sgiliau a phrofiad perthnasol o weithrediadau cynnal a chadw priffyrdd / adeiladu priffyrdd; bod yn gymwys yn defnyddio prosesau weldio cyffredin.	Profiad o ddelio ag aelodau'r cyhoedd.
Sgiliau a phrofiad perthnasol o weithrediadau cynnal a chadw priffyrdd / adeiladu priffyrdd; bod yn gymwys yn defnyddio prosesau weldio cyffredin.	Profiad o arwain carfan.

Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☒ *Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma* Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐

I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, bwriwch olwg ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.

Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:

Fframwaith	Fframwaith Cymwyseddau Gweithwyr Llaw Grefftus
Meysydd Cymhwysedd	**Ymddygiadau a gwerthoedd cymhwysedd**
1. Gweithio gydag eraill.	Yn gweithio yn dda yn rhan o garfan. Trin eraill â pharch ym mhob achos.
2. Cyfathrebu'n effeithiol.	Bob amser yn gwrtais ac yn foesgar. Yn gwirio bod eraill wedi eu deall.
3. Gweithio gyda Defnyddwyr Gwasanaethau.	Bob tro yn cynrychioli'r Cyngor yn y modd orau. Ystyried anghenion grwpiau gwahanol o bobl e.e. plant, pobl oedrannus, pobl anabl.
4. Arddangos gallu technegol.	Gweithio hyd eithaf ei allu. Gwybod sut i ddefnyddio'r holl offer yn gywir.
5. Gweithio'n ddiogel.	Yn gwybod ac yn dilyn rheolau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch perthnasol. Yn gwisgo'r dillad amddiffynnol cywir bob amser ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithio da.

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol

Disgwylir i ddeiliad y swydd wisgo'r Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol bob amser.

Bydd gofyn i chi gymryd rhan yn y rotâu wrth gefn y tu allan i oriau gwaith.

Bydd gofyn i chi weithio ar eich pen eich hun.

Y gallu i deithio ledled y Fwrdeistref Sirol i ymateb i anghenion y Gwasanaeth.